

ADOLYGIAD POLISI DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP) ac mae'r swm sy'n ddyledus yn cael ei alw'n Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC neu CFR)..
2. Er y disgrifir y GCC fel "dyled" nid oes dyled allanol o reidrwydd wedi ei gymryd – benthycan fewnol wna Cyngor Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd erbyn hyn.
3. Nod cyffredinol Canllaw gan Lywodraeth Cymru (LIC) a gyhoeddwyd yn 2018 yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthycan gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
4. Mae Canllaw LIC yn argymhell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol cyn cychwyn y flwyddyn ariannol ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR:

Dull	Dadansoddiad
Balans Gostyngol	<ul style="list-style-type: none"> • darpariaeth mwyaf yn y blynyddoedd cyntaf • cymryd cannoedd o flynyddoedd i glirio'r ddyled yn llawn.
Llinol	<ul style="list-style-type: none"> • dyddiad penodol pryd bydd y ddyled wedi ei chlirio • swm dyledus wedi ei glirio dros gyfnod llawr iawn llai – uchafswm o 50 mlynedd yn unol â'r canllawiau.
Blwydd-dal (Annuity)	<ul style="list-style-type: none"> • cymryd i ystyriaeth gwerth arian dros amser – h.y. bydd talu £1mil mewn 10 mlynedd yn llai o faich na'i dalu rwan. Ond mae'n parhau i roi mwy o bwysau ar genedlaethau'r dyfodol • dyddiad penodol pryd bydd y ddyled wedi ei chlirio

5. Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud DLIR ar sail y dulliau canlynol. Mae benthycia a gefnogir ar sail 4% o'r balans gostyngol sy'n cydfynd efo'r rheoliadau blaenorol mewn lle ers 31/03/2008 ac yn cynnwys "addasiad A" o £1.9m. O ran benthycia darbodus heb gefnogaeth mae ar sail llinol dros hyd oes yr ased perthnasol.
6. Yn dilyn asesiad gan ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, argymhellwyd bod angen adolygu yr elfen gyda chefnogaeth o'r polisi DLIR yn y Datganiad.
7. Ystryrir y dull llinol y mwyaf addas o ran balans rhwng cenedlaethau cyfredol a'r dyfodol. Bydd taenu'r ad-daliadau dyled yn fwy hafal dros y cenedlaethau sy'n cael budd o'r asedau yn cael yr effaith o leihau anghenion darpariaeth dyled yn y tymor byr i'r tymor canolig.
8. Mae'r polisi cyfredol (a gymeradwywyd ym Mawrth 2022) yn golygu y codir 4% ar y balans sy'n lleihau'n flynyddol a bydd yn cymryd 345 o flynyddoedd i leihau'r balans cyfredol i lai na £100.
9. Argymhellir defnyddio dull mwy darbodus a fydd yn clirio'r ddyled GCC mewn llai o flynyddoedd, ond yn cynnig arbedion am y blynyddoedd cyntaf.
10. Argymhellir newid y polisi i un ble caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau cyfalaf mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r benthyciad gael ei ddefnyddio. Yn ôl y Canllaw, caiff DLIR ei godi dros hyd at 50 mlynedd a gellir defnyddio'r dull llinol. Yn unol ag ysbryd y rheoliadau oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, ymgorfforir "Addasiad A" o £1.9m.
11. O newid y polisi i un dull llinol dros 50 mlynedd mae'r lleihad yn y taliadau am y 10 mlynedd cyntaf o 2023/24 dros £16miliwn (ar sail balans y GCC ar 31 Mawrth 2022). Ceir yr arbediad mwyaf yn y flwyddyn gyntaf ac yna mae'n raddol leihau. Yn y tymor canolig mae arbedion yn cael eu cynnig tra dros hyd cymhariaeth y ddau bolisi mae'r effaith newid polisi yn gost niwtral h.y. ailbroffilio yr ad-daliadau a wneir.
12. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith newid y polisi hyd blwyddyn ariannol 2032/33, gyda'r graff isod yn ei arddangos hyd at y flwyddyn 2083.

Blwyddyn	Polisi Cyfredol	Llinol 50 bl o 2024	Arbedion / (cost)
	Gyda chefnogaeth	Gyda chefnogaeth	
	£	£	£
Cyfanswm	46,771,427	29,994,889	16,776,538
2023	5,171,533	5,171,533	-
1 2024	4,964,671	2,482,336	2,482,336
2 2025	4,766,084	2,482,336	2,283,749
3 2026	4,575,441	2,482,336	2,093,105
4 2027	4,392,423	2,482,336	1,910,088
5 2028	4,216,726	2,482,336	1,734,391
6 2029	4,048,057	2,482,336	1,565,722
7 2030	3,886,135	2,482,336	1,403,799
8 2031	3,730,690	2,482,336	1,248,354
9 2032	3,581,462	2,482,336	1,099,126
10 2033	3,438,204	2,482,336	955,868

Effaith newid polisi DLIR o 2023/24 ymlaen


